Hyfforddiant Diogelu Oedolion Sylfaenol Age Cymru

Mae hyfforddiant Diogelu Oedolion Sylfaenol Age Cymru yn sesiwn hyfforddi orfodol a gyflwynir i holl staff a gwirfoddolwyr Age Cymru ac fe'i cyflwynir dros Zoom, ddwywaith y mis.

Cyfrifoldeb staff a gwirfoddolwyr Age Cymru yw diogelu, ac mae'n ddyletswydd ar bawb i gadw oedolion sydd angen gofal a chymorth yn ddiogel rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae'r sesiwn ddwy awr hon yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau ategol y sefydliad a ddarperir ar gyfer pawb sy'n bresennol ac mae'n ymdrin â'r agweddau canlynol ar ddiogelu:

- Beth yw diogelu?
- Egwyddorion diogelu.
- Hawliau dynol.
- Beth yw cam-drin a'r mathau gwahanol o gam-drin?
- Effaith cadw'n dawel.
- Gweithdrefnau Age Cymru wrth ymateb i ddatgeliadau o bryderon cam-drin a diogelu.

Mae'r sesiwn ryngweithiol yn darparu lle diogel a chyfrinachol i gyfranogwyr drafod a chael dealltwriaeth glir o ddiogelu ac mae'n sicrhau bod holl Staff a Gwirfoddolwyr Age Cymru yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi gan reolwyr llinell a diogelu, os bydd angen iddynt ymateb i unrhyw bryderon neu ddatgeliadau diogelu tra byddant yn eu rôl gydag Age Cymru.

Adborth yn dilyn yr hyfforddiant Diogelu:

*"*Ar gyfer yr hyn a all fod yn sesiwn ddwys yn cynnwys llawer o wybodaeth, gwiriodd yr hyfforddwr yn gyson i wneud yn siŵr ein bod yn iawn, i wirio a oedd gennym unrhyw gwestiynau ac i'n cadw ni'n rhan o'r sesiwn"

"Clir iawn, addysgiadol a defnyddiol iawn. Hefyd, creodd yr hyfforddwr amgylchedd croesawgar i ni ddysgu ynddo, hyd yn oed bod yr hyfforddiant ar-lein."

"Roedd fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth ar ôl y sesiwn hyfforddi wedi gwella'n fawr. Cyflwynodd yr hyfforddwr sesiwn sy'n ysgogi'r meddwl ar Ddiogelu. Cyflwynwyd pwynt pŵer clir a pherthnasol i'r sgwrs yn dda iawn."